

argraffydd ond roedd ganddo ddau frawd hŷn y gallai ddibynnu arnynt am gyngor! Ac erbyn diwedd y tymor cyntaf yn yr ysgol newydd roedd wedi penderfynu cyhoeddi cylchgrawn at ei gwasanaeth. Ond nid cyhoeddiad argraffedig yw'r DOLWYDDEGIN ymddangosodd yn Rhagfyr 1934 ond yn hytrach un a ysgrifennwyd â llaw a'i ddyblygu. Mae dau gopi gwahanol, gyda'r mymryn lleiaf o amrywiadau ynddynt, yng nghasgliad y Llyfrgell Genedlaethol sy'n awgrymu efallai mai dull y *scriptorium* canoloesol a ddefnyddiwyd i'w gynhyrchu! Meddai'r prifathro yn ei ragair:

"Dyma rifyn cyntaf llyfrin yr Ysgol. Cyhoeddwn ef gyda'r gobaiith y bydd yn symbyliad i'r plant ac o ddi-ddordeb i rieni a phawb a'i darllen. Daeth y tymor cyntaf yn yr Ysgol Newydd i ben, ac yn ôl yr ysbryd parod a brwdfrydig d danghoswyd gan y plwyf yn ystod y pedwar mis diwethaf, gellir edrych ymlaen yn hyderus am lwyddiant a daioni fel canlyniad i'r ymdrechion."

Cyhoeddiad 16 tudalen yw'r DOLWYDDEGIN cyntaf hwn ac yn gymysgedd o eitemau, yn Gymraeg a Saesneg, rhai o waith yr athrawon ond y mwyafrif o waith y disgyblion.

Mae na lawer iawn o gerddi byrion; deialog rhwng llyfr Cymraeg a llyfr Saesneg (dadlennol iawn!); nodiadau ar weithgareddau'r ysgol a 'garden notes' gan y prifathro, yn Saesneg fel mae ryfedda rhywfodd. Mae na lawer o eitemau eraill difyr, hefyd, megis rhestr o ddywediadau gwreiddiol rhai o'r plant - "The rain comes to Dolwyddelan from Ffestiniog over the Crimean past" a "dechrau dafad yw oen bach". Adroddir hefyd fod un o'r plant, William Owen Parry wedi ennill cystadleuaeth 'Ovaltine' allan o chwe mil o gystadleuwyr ac mae nodyn yn diolch i'r cwmni: "We gratefully acknowledge the donation of £1-1-0 to the School Funds by Messrs Wender, proprietors of Ovaltine." Ar glawr ôl y cylchgrawn mae'r geiriau - 'arwyddair yr ysgol GWASANAETH' ac yna'r pennill:

*Paid ag ofni cario beichiau
Weli'n blino unrhyw ddyd.
Cario i arall yw'r ffordd orau,
I anghofio'th faich dy hun.*

Ar y clawr blaen mae pennill Cymraeg a fyddai'n ymddangos ar gloriau rhifynnau eraill o'r cylchgrawn:

*Dyma egin meddwl plentyn
Gwanwyn myfyrdodau mân
Haf a'i flodau fydd yn dilyn,
Hydref fyddo'n destun cân.*

Dyfodiad y peiriant Adana

Dwn i ddim sut dderbyniad gafodd "Llyfrin yr Ysgol" fel y'i galwyd ond bwrw mlaen â'r syniad a wnaed ac erbyn Gwanwyn 1936 roedd yr ail rifyn wedi ymddangos a'r prifathro'n cyfarch ei ddarllenwyr fel hyn:

Dyma'r ail rifyn o 'DOLWYDDEGIN', a'r tro hwn argraffwyd ef yn yr ysgol gan y bechgyn. Gan nad oes ond ychydig amser er's pan gawsom y peiriant, gobeithiwn na fydd y feirniadaeth yn fanwl iawn. Nid buan y meistrolir gwaith argraffydd, ond gwelir yma o leiaf arwydd fod un neu ddau o'r bechgyn hynaf wedi dechrau gyda mesur o lwyddiant. Credwn fod y grefft o argraffu o werth uchel mewn hyfforddi'r meddwl, a datblygu cymeriad mewn amynedd a meddylgarwch.

Yn y 'School notes' fe'n hysbysir mai ychydig cyn y Nadolig (1935) y cyrhaeddodd y wasg yr ysgol: "in the meantime the patience of many boys has been sorely tried. The art of the printer is obviously not to be acquired easily." Ac eir ymlaen i enwi'r prif argraffydd, Albert Jenner, a'i ddau gynorthwydd, Oswald Davies ac Arthur Hughes.

Mae DOLWYDDEGIN rhif 2, sy'n 12 tudalen, yn debyg iawn o ran natur ei gynnwys i'r rhifyn cyntaf gydag amrywiaeth o gerddi a phytiau o straeon, adroddiadau a nodiadau am weithgareddau'r ysgol. Roedd defaid, meddid, "wedi gwneud difrod ofnadwy i ardd yr ysgol. Yn llythrennol maent wedi bwyta miloedd o blanhigion a heusom ddechrau'r Haf diwethaf ar gyfer eleni". Problem, mae'n beryg, sydd wedi parhau hyd heddiw yn y pentref! Mae na hefyd adroddiad



Coeden Nadolig a argraffwyd mewn lliw yn rhifyn Nadolig 1938 o'r Dolwyddegin.

difyr, yn Saesneg, ar bedair dadl a gynhaliwyd yn yr ysgol, dwy yn Gymraeg a dwy yn Saesneg. Y ddau destun Cymraeg oedd 'A ddylid dysgu Saesneg yn ysgolion Cymru?' a 'Pa un ai Bechgyn ai Genethod sydd fwyaf defnyddiol? A'r canlyniad?' "In the second the Girls deservedly carried the day, although some of the boys made good hits." Ac fe ellid dyfynnu a chyfeirio at lawer eitem ddifyr arall. Yr hyn sy'n arwyddocaol yw fod y cyfan wedi ei gynhyrchu'n hynod ddestlus a chywir ar beiriant argraffu Adana. Yn ôl tystiolaeth Richard Williams - "y bechgyn hynaf a wnaeth y faine i ddal yr hambyrddau teip a'r peiriant argraffu" ond ers yn ddirgelwech, hyd yn hyn, o ble daeth y wasg i'r ysgol a sut yr aed ati i'w phwrcasu.

Defnydd cynyddol o luniau

Nadolig 1938 yw'r dyddiad ar glawr DOLWYDDEGIN rhif 3 ac mae'r cylchgrawn yn 18 tudalen ac ar werth am 6ch. Mae'r prifathro H. I. Huws yn egluro ymhellach:

Bu paratoi am dros flwyddyn i gynhyrchu RHIF 3 o llyfrin yr ysgol. Daeth dau o'r bechgyn yn ddigon medrus i argraffu bron y cyfan heb fawr i gyd o arolygiaeth. Gweithiant yn ddysfal ac amyneddgar gyda gorchwyl sydd yn aml yn trethu'r amynedd

hyd yr eithaf. Bu peth cynnydd yn y gwaith arlunio (ar leinof!), a gobeithiwn ddal i ddatblygu'r gwaith diddorol hwn.

Ac, yn wir, mae na nifer o luniau toriad leino rhyfeddol o ddeniadol yn y rhifyn hwn gydag un darlun o goeden Nadolig mewn lliw! Testun edmygedd, yn sier, yw fod safon yr argraffu ac ansawdd y cynhyrchiad i gyd mor lân a chaboledig. Nodwedd arall yw fod canran uwch o'r cynnwys yn Gymraeg o'i gymharu â'r rhifynnau blaenorol ynghyd â nifer o eitemau hirach. Megis yr 'ymgom â Mr William Thomas Williams am yr hen ddyddiau yn Noldwyddelan'. Roedd ef yn ŵr ifanc pan ddechreuwyd gwneud y rheilffordd trwy'r pentref a llinio'r twnel dan y Crimea. Ac unwaith eto fe gawn grynodeb o rai o ddigwyddiadau'r ysgol a chofnod o lwyddiannau rhai o'r plant megis: "Vera Roberts gained the first prize of £3 in a National Newspaper Painting Competition. (Vera also received a consolation prize in a Limerick Competition of the Ivory Castle League)". Ynghyd ag ambell i berl a glywyd mewn dosbarth. Dan y pennawd 'comparison of adjective' ceir 'ill, worse, dead'. (Copiau prin iawn.)

Mae'n siwr mai ychydig iawn o gopiau sydd bellach ar gael o'r rhifynnau cynnar o DOLWYDDEGIN a gyhoeddwyd rhwng Nadolig 1934 a Nadolig 1938 a'r unig rifyn arall y gwn i amdano (hyd yn hyn beth bynnag!) yw'r un a ymddangosodd ym 1951. Efallai nad yw hwn mor brin gan fod mwyafrif llethol ei gyfranwyr, trwy lwc, yn fyw ac iach o hyd. Ac nid cylchgrawn fel y tri rhifyn cyntaf ydyw ond yn hytrach gasgliad (24 tudalen) o gerddi a gyfansodwyd gan ddisgyblion a chyn ddisgyblion Ysgol Dolwyddelan fel yr eglura'r prifathro:

"Cyhoeddwn y llyfrin hwn o waith y plant i ddilyn "Awen y Ddol" - gwaith beirdd y fro 1949. Mae yma waith pedair o enethod o'r Ysgol Ramadeg, Llanrwst. Cysodwyd ac argraffwyd y cyfan gan saith o fechgyn, gydag ychydig o help y genethod hynaf".

Ar yr wynebdalen fe restrir enwau'r saith argraffydd (ond nid y genethod fu'n eu helpu!) ac mae na bedwar darlun

toriad leino i gyd-fynd â rhai o'r cerddi. Ac er nad oes iddo'r amrywiaeth deunydd a geir yn rhifynnau blaenorol DOLWYDDEGIN, y mae'n ddogfen i'w thrysori ac yn werthfawr yng nghyd-destun hanes lleol Dolwyddelan ac yn ddeunydd darllen difyr iawn.

Wrth drafod y wasg yn Ysgol Dolwyddelan: dathliad 1934-1984 (t 9) mae Richard Williams yn dweud hyn:

"Ar ôl 1956 defnyddiwyd y wasg i argraffu pamffledi a chardiau gwaith ar gyfer y dosbarthiadau. Gwnaed cardiau a phosteri ac ati fel bo angen. Hefyd dechreuwyd argraffu gwaith y rhai fyddai yn cael eu gwobrwyo yn Eisteddfodau'r Urdd ... Y Dolwyddegin olaf oedd casgliad o waith y rhai fu yn cystadlu ac eraill ar destunau gwahanol. Bu raid i'r Prifathro gysodi gyda'r nos. - nid oedd cyfle i ddsygu argraffu i blant o dan 11 oed."

Hyd yn hyn ni lwyddais i leoli copi o'r 'Dolwyddegin olaf' y cyfeirir ato ac efallai'n wir fod na rai eraill wedi ymddangos rhwng 1938 ac 1951 na wn amdanynt. Felly, ffrwyth ymchwil ar ei hanner a stori heb ei gorffen yw'r sylwadau hyn! Ond mae na stori arall ynglŷn â Gwasg yr Ysgol Dolwyddelan, sef hynt y cyhoeddiadau eraill a gynhyrwyd rhwng 1940-49, ac fe ddychwelaf at hynny y tro nesaf.